

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**  
**RHONDDA CYNON TAF**  
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn The Fan House, Rhondda Heritage Park, Lewis Merthyr Colliery, Coed Cae Road, Trehafod, CF37 7NP  
Dydd Iau, 21ain Medi, 2017 am 2.00 pm

Dolen gyswllt: Emma Wilkins (Rhif ffôn. 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Mawrth, 19 Medi 2017. Mae hawl gan Gynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd i annerch yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i [servicedirector.cabinetandpr@rctcbc.gov.uk](mailto:servicedirector.cabinetandpr@rctcbc.gov.uk).

**MATERION I'W TRAFOD**

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. GWAITH Y GWASANAETH CELFYDDYDAU O RAN HELPU I GYFLAWNI 7 NOD LLESIANT DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Cabinet a'r Wasg, sy'n rhoi gwybodaeth i'r aelodau ynglŷn â gwaith y Gwasanaeth Celfyddydau o ran y saith nod llesiant sy'n rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

**3. YMGYRCH DYING TO WORK**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol sy'n rhoi gwybodaeth i'r Cabinet ynglŷn ag ymgyrch Dying to Work.

**Tudalennau 11-14**

**4. CYNNIG SEFYDLU YSGOL 3-19 OED AR SAFLE GARTH OLWG**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Dros Dro, Addysg a Dysgu Gydol Oes, sy'n amlinellu cynigion sydd â'r nod o sefydlu ysgol 'pob oed' 3-19 oed ar Gampws Dysgu Gydol Oes Garth Olwg, Pentre'r Eglwys.

**Tudalennau 15-54**

**5. CANLYNIADAU CYFNOD SYLFAEN, CYFNODAU ALLWEDDOL 2 A 3 A CHANLYNIADAU DROS DRO CYFNOD ALLWEDDOL 4 AR GYFER 2017**

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr sy'n rhoi adborth cychwynnol i'r Aelodau ynglŷn â chanlyniadau Cyfnod Sylfaen, Cyfnodau Allweddol 2, 3, a 4 ar gyfer 2017.

**Tudalennau 55 –64**

**6. ADRODDIAD AR GYFLAWNIAD Y CYNGOR – 30 MEHEFIN 2017 (CHWARTER 1)**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen sy'n rhoi crynodeb i'r Cynghorwyr am gyflawniad y Cyngor dros dri mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon (hyd at 30 Mehefin 2017), o ran materion ariannol a gweithredol fel ei gilydd.

**Tudalennau 65 – 78**

**7. MEYSYDD LLE MAE CYFLEOEDD STRATEGOL**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio, sy'n amlinellu meysydd lle mae cyfleoedd o ran tŵf economaidd a chreu swyddi yn Rhondda Cynon Taf.

**Tudalennau 79 - 152**

**8. ADOLYGU GWASANAETHAU GOFAL EILAIDD AR GYFER CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU YN ARDAL CWM TAF.**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Cabinet am "Wasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Integredig" arfaethedig y Bwrdd Iechyd Cyhoeddus, yn dilyn adolygiad o wasanaethau gofal eilaidd ar gyfer camddefnyddio sylweddau yn ardal Cwm Taf.

**Tudalennau 153 - 190**

## 9. MATERION BRYS

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



### Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet

#### **Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** A Morgan (Cadeirydd)  
M Webber (Is-gadeirydd)  
R Bevan  
A Crimmings  
G. Hopkins  
M Norris  
(Mrs) J. Rosser  
R. Lewis  
(Mrs) C. Leyshon

**Swyddogion:** Chris Bradshaw, Prif Weithredwr  
Chris Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol  
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus  
Chris Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen  
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant  
Tony Wilkins, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol  
Colin Atyeo, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael  
Esther Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes  
Jane Cook, Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio  
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd  
Paul Mee, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd